OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2298 (Cy. 224)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llangadog i Lanwrda, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*6 Medi 2013*
Yn dod i rym	*16 Medi 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Medi 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llangadog i Lanwrda, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 16 Medi 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Square and Compass, Llangadog, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2002**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 6 Medi 2013

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2002/2744 (Cy.260).

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r gogledd o bwynt 260 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 wrth Gylchfan y Square and Compass am bellter o 2,250 o fetrau.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r de o bwynt 460 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 wrth Gylchfan y Square and Compass am bellter o 1 cilometr.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r de o bwynt 2,510 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 wrth Gylchfan y Square and Compass am bellter o 3,970 o fetrau.